

Roedd George Grey Evans yn frawd i Anne ac mae *The Clockmakers of Llanrwst* yn nodi fod yr ymchwilyr wedi darganfod dau gloc gydag enw "George Grey Evans, Penmachno" arnynt. Ni wn am ba hyd y bu ym Mhenmachno. Erbyn cyfrifiad 1891 nid oes yr un o'r teulu yn byw yn Greenwich House ac mae George Evans yn ôl yn ei gartref gyda'i rieni yn Llanbryn-mair ac yn parhau yn "Watchmaker". Erbyn 1901 mae yn parhau yn ddibriod ac yn byw gyda'i chwaer, Hannah, yn yr hen gartref. Tybed a oes clociau gyda'r enw "George Grey Evans, Llanbryn-mair" arnynt yn bodoli?

Mae *The Clockmakers of Llanrwst* yn nodi bod Iorwerth Peate wedi gweld cloc mawr gyda enw "R Griffiths, Penmachno" arno ond ni lwyddodd yr ymchwilyr diweddarach ddarganfod cloc gyda'r enw yma arno. Nid oes gennyf gloc mawr ond mae gennyf gloc tywydd (barometer) gyda'r enw "R Griffiths, Penmachno" arno. Roedd hwn yn bwysig iawn i'm taid a'nain yn Gwiga ers talwm.



Cloc tywydd gyda'r enw, "R Griffiths, Penmachno"

Roeddent yn rhoddi cnoc fechan ar y gwydr yn ddyddiol, ac weithiau sawl gwaith yn ystod y dydd, i weld pa ffordd roedd y bys yn symud. Roedd y tywydd yn bwysig iawn i waith y fferm ac hefyd oherwydd y daith hir i gerdded yn ôl ac ymlaen i'r pentref.

Wrth gael adnewyddu'r cloc tywydd, rai blynyddoedd yn ôl, dywedodd yr arbenigwr fod y "commercial travellers" yn mynd o gwmpas siopau yn cynnig rhoddi enw'r siopwr ar y cloc tywydd os oeddynt yn archebu hanner dwsin. Dyma, mae'n debyg, oedd y rheswm am gamsillafu "Penmachno"!

Beth ddigwyddodd i fab Mathew Williams - Evan Robert Williams? Mae'n anodd dweud; ond mae un o'r enw ac yn yr oedran cywir yn Bootle yn "Joiner" yn 1891 ac yn "electrician" yn Marylebone yn Llundain yn 1901. Ond yn sicr nid oedd ym Mhenmachno.

Mae'n drist meddwl fod Mathew Williams, a gynhyrchodd glociau mor hardd, wedi marw dan amgylchiadau mor erchyll, ond mae o leiaf ddau o'i glociau yn dysteb i'w waith. Tybed a oes rhywun arall o ddarlennwyr Y Casglwr yn berchen ar gloc Mathew Williams neu yn gwybod lle mae un? Byddai yn ddiddorol clywed oddi wrthyh.

# LLYFRAU YSTWYTH

Lôn Rosmari, Aberystwyth, SY23 1DX

Ffon: 01970-639479

1. John Mills; *Gramadeg Cerddoriaeth*, Llanidloes, 1838. Lledr cyfan, wedi ei dreulio. . . . . £6.00
2. William Owen (Pughe); *Geiriadur Cymraeg a Saesoneg. An Abridgement of the Welsh and English Dictionary*. Llundain, 1806. Clawr yn rhydd. . . . . £12.00
3. Y *Llysieulyr Teuluaid*, Culpepper & Parkins (cyf. D.T.Jones). Caernarfon, H. Humphreys, d.d. Wedi ei rwymo gyda *Llysieuaeth Fedyddol* Thomas Parry. Wedi ei ailrwymo mewn lliain. Llundain. Copi da. . . . . £20.00
4. Amryw. (1) *Traethawd ar Ddigionfaint* (Fawcett, cyf. D.Saunders), Merthyr Tydfil, 1826. (2) *Ymfyniad I'r prif bethau mewn dadl ... am Ddeiliaid a Dull Bedydd* (Munro, cyf. M.Roberts), Pwllheli 1830. (3) *Ystyriaethau o Gyflwr Dyn yn y Bywyd Hwn* (J. Taylor, cyf. G. Wynn) Merthyr Tydfil, 1825 (rhestr tanygrifwyr). Rhwymiad lledr cyfan; cyflwr reit dda. . . . £12.00
5. D. Silvan Evans, *Blodau Ieuainc*, Aberystwyth, 1843 (rhestr tanygrifwyr). . . . . £5.00
6. *Galwad at Orseddfaingc y Gras... yr Ail Argraphiad*. Llundain, Ioan Olfir, 1750. Rhwymiad lledr, cryn draul arno. . . . . £4.00
7. Amryw. (1) *Gweledigaethau y Bardd Cwsg (Darluniadol)... yr Ugeinfed Argraffiad*. Lerpwl, 1886. (2) Hanes Bywyd Edward Gwreccsam, 1894. (3) *Cofiant Dafydd Evans Ffynnonhenry* (heb wyneb-ddalen), Llanelli. (4) *Isaac Lewis y Crwydryn Digrif* gan Pelidros. Merthyr Tydfil, d.d. . . . . £7.00
8. Thomas Jones, *Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary*, Dinbych, 1826. . . . . £15.00
9. Owen Davies *Ymddiddanion rhwng dau Gymmydog, Hyffordd a Beread, yn dangos Cyfeiriadau Calfinistiaeth, ynghyd a Dau Lythyr at Mr Thomas Jones...* Caerleon, 1807. Clawr da wedi cael niwed. . . . . £10.00
10. Amryw. (1) W.E.Jones, *Y Bardd neu y Meudwy Cymreig...* Caerfyrddin, 1830. (2) Richard Prichard, *Diffyniad Bedydd Babanod...* Llanidloes, 1839. Y rhwymiad lledr yn dechrau ymddatod. . . . £5.00
11. *Gardd Aberdar, yn cynwys y Cyfansoddiadau Buddugol yn Eisteddfod y Carw Coch, Aberdar, Awst 29 1853*. Caerfyrddin, 1854. . . . . £12.00
12. J.E. Caerwyn Williams (gol.) *Barddoniaeth Bangor 1927-1937*. Gwasg Aberystwyth. . . £6.00
13. Davies & Prosser, *A Book of Aberystwyth Verse*, Newtown: Welsh Outlook, d.d. . . . £6.00
14. Amryw. (1) N.Williams, *Pharmacopoeia, or Medical Admonitions in English and Welsh*, Merthyr, 1835. (2) *Pob Dyn ei Physgwyr ei hun...* Caerfyrddin, 1819. . . . . £15.00
15. T.Rowland, *A Grammar of the Welsh Language* (ail argraffiad) Llundain, 1857. . . . £5.00
16. Price & Griffiths, *Y Llysieulyr Teuluaid...* (lluniau). Abertawe, 1869. . . . . £12.00
17. S.Evans & Gomer Roberts (goln), *Cyfrrol Goffa Diwygiad 1904-1905*. Caernarfon, 1954. £6.00
18. T.E. Ellis (gol.) *Gweithiau Morgan Llwyd o Wynedd*. Jarvis & Foster/J.M.Dent, 1899. Rhwymiad lledr, traul arno, copi glân. . . . . £6.00
19. J. Morris-Jones, *Cerdd Dafod*. Rhydychen, 1925. . . . . £12.00
20. John Strachan, *An Introduction to Early Welsh*. Manceinion, 1909. . . . . £15.00
21. Irydair. Caernarfon, d.d. (Y meingefn yn eisiau). . . . . £18.00
22. W. Evans, *An English-Welsh Dictionary* (second edition, improved by the late Rev. Mr Richards, Coychurch). Carmarthen, 1812. Wedi dioddef cryn draul, ond mewn cyflwr gweddol serch hynny. . . . . £10.00
23. Amryw. (1) *Hyfforddiadau i'r Garddwr...* Caernarfon, 1845, 24tt. (2) E. Cooling, *A New Edition of the Domestic Gardener's Assistant...* Derby, d.d. (3) H.Hughes, *Cofiant John Jones, Talsarn*, d.d. (4) *Mrs E. Price, Holl Gelfyddyd Cogyddiaeth* (dywedir bod lluniau yn y llyfr, ond nid oes!) Caernarfon, d.d. (6) *English Cookery* Llundain, d.d. Rhwymiad gwael. . . . . £8.00
24. Dafydd Morganwg, *Hanes Morganwg*. Aberdar, 1874. . . . . £15.00
25. Amryw. (1) *Y Greal, sev Cynnulliad o Orchestion ein Hynaviaid...* Llundain, Alban Hevin, 1805. 408tt. (2) *Henri Perri, Rhetoreg neu Rhetheg...* Eglwyrn Fraethineb. Llundain, 1807. Rhwymiad yn rhocs, y testunau mewn cyflwr da. . . . . £12.00
26. Amryw (1) T.Jones, *The Original Harmonist/Wydd Gwreiddiol* (dwy gyfrol, l wedi ei argraffu yn Nhreffynn, yr ail yn Licsonm) d.d.. (2) J.D.Jones, *Cydymwaith y Cerddor*, Wrexham, d.d. Rhwymiad lledr, pur dda. . . . . £12.00
27. *Taliesin: sef Cylchgrawn Chwarterol*, cyfrol I. Rhuthyn, 1870. . . . . £8.00
28. Roberts & Williams (goln) *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*. Caerdydd, 1923. Y rhwymiad ychydig yn llac. . . . . £6.00
29. Lewis & Diverres (gol), *Delw y Byd*, Caerdydd, 1928. . . . . £4.00
30. Elijah Waring, *Recollections and Anecdotes of Edward Williams...* Iolo Morganwg. Llundain, 1850. . . . . £30.00
31. *Daeareg Parth Gorllewinol Morganwg neu Drem Fewnol i Grwstyn y Ddaeareg*. Gan E.T. Cwmafon, d.d. Cyflwr brau. . . . . £5.00
32. W. Roberts (gol), *Y Traethodydd yn America*. Cyfrol 1, 1857. (Y 6 tudalen gyntaf yn rhydd) . . . . . £10.00
33. J.Edwards, *Y Meddyg Anifeiliaid*, Wrexham, d.d. (?1860. pedwar llun; rhwymiad gwael) £4.00
34. Mathias & James (goln) *Dysg a Dawn: Cyfrol Goffa Aneirin Lewis*, Caerdydd, 1992. . £6.00
35. Morris-Jones & Parry-Williams (goln) *Llywysgrif Hendregadredd*, Caerdydd, 1993. . £10.00
36. Huw Jones (gol), *Diddanwch Teuluaid...* Llundain, 1763. Lledr llawn, dipyn o draul. £60.00
37. *Pembrokeshire; R.C.A.H.M. Inventory*, copi da. Llofnod yr Athro David Williams. . . £145.00

Cludiant yn ychwanegol